# Hysbysiad Preifatrwydd QAA - ein Cydweithwyr

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch ('QAA', 'ni' neu 'ein') yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r rheoliad a'r deddfau diogelu data perthnasol. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â'ch hawliau a'n rhwymedigaethau, ac yn egluro sut, pam a phryd rydym yn prosesu'ch data personol.

Rydym yn gweithredu fel rheolwr data a / neu brosesydd data wrth brosesu eich data. Mae QAA wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) â'r rhif cofrestru (Z570112X).

Mae ein Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth diogelu data yn QAA, a gellir cysylltu trwy e-bostio governance@qaa.ac.uk neu drwy ffonio +00 44 (0)1452 557000.

## Beth yw data personol?

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n adnabod unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er enghraifft, eich enw, cyfeiriad e-bost neu rif ffôn. Data personol categori arbennig yw data personol yr ydym yn edrych ar ei ôl yn fwy gofalus oherwydd ei fod yn sensitif, megis manylion am eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol neu athronyddol, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol, aelodaeth o undeb llafur, gwybodaeth am eich iechyd a data genetig neu fiometrig. Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth o'r fath, ni fyddwn ond yn gofyn ac yn prosesu cyn lleied ag sy'n angenrheidiol at y diben penodedig, a byddwn yn dynodi sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny.

## Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu

Mae QAA yn prosesu gwybodaeth bersonol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol, statudol a chytundebol ac i ddarparu gwybodaeth i chi, naill ai am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau neu am faterion sydd o fudd i'r cyhoedd. Ni fyddwn yn casglu unrhyw ddata personol diangen gennych, ac ni fyddwn yn prosesu gwybodaeth amdanoch mewn unrhyw ffordd heblaw fel y nodir yn yr hysbysiad hwn heb ddweud wrthych yn gyntaf.

**Diffinnir ein Cydweithwyr fel a ganlyn:**

- rhai a gyflogir gan gynnwys staff dros-dro o asiantaeth
- aelodau o fyrddau a phwyllgorau QAA
- contractwyr
- adolygwyr
- aseswyr
- ymwelwyr cofrestredig a lleyg
- gwirfoddolwyr
- pobl sy'n gwneud cais i weithio gyda ni
- aelodau o weithgorau QAA

## Pam mae angen eich data arnom

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol, statudol a chytundebol, ac i ddarparu gwybodaeth i chi, naill ai am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau neu am faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Ni fyddwn yn casglu unrhyw ddata personol diangen gennych, ac ni fyddwn yn prosesu gwybodaeth amdanoch mewn unrhyw ffordd heblaw fel y nodir yn yr hysbysiad hwn heb ddweud wrthych yn gyntaf.

## Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data personol

Mae QAA yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif ac ni fydd byth yn datgelu, rhannu na gwerthu eich data heb yn wybod ichi; oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny dan y gyfraith. Lle rydych chi wedi cydsynio i ni eich darparu â chynigion hyrwyddo a marchnata, mae gennych hawl i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Mae manylion ynghylch y dibenion a'r rhesymau dros brosesu'ch data personol isod:

| **Ein cydweithwyr** | |
|---|---|
| Diben y prosesu | Cyflawni ein contractau cyflogaeth gyda chi, drwy sicrhau eich bod yn cael eich talu'n gywir ac yn brydlon.<br>Cyflawni ein rhwymedigaethau o ran gwirio record troseddol unigolion ar gyfer rolau sy'n golygu cyswllt uniongyrchol â phlant ac oedolion bregus<br>Cyflawni ein rhwymedigaethau iechyd a diogelwch i chi drwy sicrhau y gallwn gysylltu â chi neu eich perthynas agosaf os bydd argyfwng neu absenoldeb heb ei awdurdodi.<br>Galluogi rheolwr llinell i gysylltu ag aelod o'r tîm pe bai digwyddiad sy'n tarfu ar barhad y busnes.<br>Ble rydych chi wedi rhoi eich cydsyniad i ni brosesu eich data at ddiben penodol. |
| Sail gyfreithiol y prosesu | **GDPR Erthygl 6 (1)(a)** cydsyniad – ar achlysuron penodol ble bydd QAA ond yn prosesu data os ydych chi'n cydsynio i hynny.<br>**GDPR Erthygl 6(1)(b)** cyflawni contract<br>**GDPR Erthygl 9(2)(b)** rhwymedigaethau cyfreithiol yn ymwneud â chyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelu cymdeithasol **(Data Categori Arbennig yn unig)**<br>**GDPR Erthygl 6(1)(f)** buddiannau cyfreithlon. Fe ddefnyddiwn fuddiannau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu pe bai digwyddiad sy'n tarfu ar barhad y busnes.<br>**Erthygl 6(1)(d)** buddiannau hanfodol – lle mae prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol testun y data neu unrhyw berson naturiol arall. |
| Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir | Enw gan gynnwys cyfarchiad<br>Cyfeiriad personol gan gynnwys cod post<br>Rhif ffôn personol<br>Unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch swydd<br>Cyfeiriad e-bost personol<br>Dyddiad geni ac oedran<br>Rhywedd |

| | |
|---|---|
| | Manylion cofrestru eich car ar gyfer parcio yn Southgate House, Caerloyw<br>Rhif Yswiriant Gwladol<br>Prif iaith<br>Statws priodasol<br>Cod treth<br>Cyfansymiau'r flwyddyn dreth hyd yma<br>Manylion pensiwn<br>Manylion cyfrif banc (cod didoli, rhif cyfrif, enw'r cyfrif, cyfeirnod cymdeithas adeiladu, cyfeirnod *autopay*)<br>Manylion talebau gofal plant<br>Manylion buddion cwmni y mae gennych hawl iddynt<br>Unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig ag iawndal<br>Prawf adnabyddiaeth<br>Hanes cyflogaeth a phrofiad proffesiynol<br>Amser gweithio<br>Gwybodaeth yn ymwneud â sgiliau a chymwysterau gan gynnwys cymhwysedd iaith<br>Unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig ag adolygiad perfformiad<br>Unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â hyfforddiant<br>Unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â disgyblaeth neu achwyniad, hanes gwyliau ac absenoldeb<br>*Curriculum vitae*<br>Yr hawl i weithio / astudio, gan gynnwys manylion fisa a dinasyddiaeth<br>Gwirio record troseddol gyda:<br>Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)<br>*Disclosure Scotland*<br>Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) Pin ar gyfer nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig<br>Manylion pasbort<br>Manylion trwydded yrru<br>Ffotograff<br>Recordiad sain neu fideo<br>Manylion eich cyswllt mewn argyfwng<br>Gwybodaeth ychwanegol am aelodau'r teulu ar gyfer *Benenden* gan gynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad<br>Gwybodaeth ar gyfer dibynyddion<br>Enw a rhif ffôn perthynas agosaf at ddibenion cysylltu mewn argyfwng<br>[Dogfennau gwreiddiol i fodloni gwiriadau hawl i weithio'r DU]<br>Caniatâd preswylio biometrig.<br><br>**Data Categori Arbennig**<br>Data personol yn datgelu tarddiad ethnig a chenedligrwydd<br>Data personol yn datgelu anableddau<br>Data personol yn datgelu credoau crefyddol neu athronyddol<br>Data personol yn datgelu aelodaeth undeb llafur<br>Data personol yn ymwneud â gofynion dietegol unigolyn<br>Data biometreg megis adnabyddiaeth wynebau<br>Data yn ymwneud â rhywedd person<br>Data am gyfeiriadedd rhywiol person. |

| | |
|---|---|
| Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol | Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae *Pay Dashboard* yn prosesu gwybodaeth bersonol yn eu Hysbysiad Preifatrwydd: www.paydashboard.com/privacy<br><br>**PayCircle**<br>PayCircle yw'r feddalwedd a ddefnyddir gan Hazlewoods i wneud trafodion BACS ar ran QAA. Caiff manylion personol gan gynnwys eich enw, manylion eich cyfrif a'r swm sydd dan sylw eu rhannu gyda PayCircle, ond ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio mewn unrhyw ffordd arall ac eithrio gwneud y trosglwyddiad banc angenrheidiol.<br><br>Mae yna gytundeb cyfreithiol rhwng Hazlewoods a PayCircle sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt brosesu eich data personol yn gyfreithlon, a'i gadw'n ddiogel.<br><br>Gellir dod o hyd i wybodaeth ynghylch sut mae PayCircle yn prosesu gwybodaeth bersonol yn eu Hysbysiad Preifatrwydd: Polisi Preifatrwydd - Paycircle.<br>Rhennir data hefyd gyda'r canlynol:<br>Swyddfa Refeniw a Thollau<br>Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL) a Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) - Darparwyr pensiwn<br>PS Financials - System gyllid<br>Concur - System brosesu treuliau<br>PCS - Undeb llafur<br>COPE - Darparydd iechyd galwedigaethol<br>Shakespeare Martineau LLP - cynghorwyr cyfreithiol<br>FreshWorks - System Desg Gwasanaeth<br>JiscMail – gohebiaeth newyddion QAA<br>Cezanne HR - system AD<br>iHASCO - darparydd hyfforddiant ar-lein<br>High Speed Training – darparydd hyfforddiant ar-lein<br>Benenden - darparydd Gofal Iechyd i Weithwyr<br>Click Travel - cyflenwr teithio a llety ar gyfer busnesau<br>Gallagher - darparydd Polisi Yswiriant<br>Advance HE - dilysu cymhwyster adolygwyr<br>Posturite - cyflenwr offer ergonomig<br>DPD - cyflenwr gwasanaethau negesydd<br>FedEx. - cyflenwr gwasanaethau danfon tramor<br>Deltec - cyflenwr gwasanaethau danfon<br>Commercial - Deunyddiau Ysgrifennu a Dodrefn Swyddfa<br>Crowe LLP - Archwilwyr Ariannol<br>Classmarker - safle Marcio Profion Diogelu Data<br>DocuSign - Meddalwedd e-lofnodi electronig<br>Cyngor Prydeinig - CV a bywgraffiadau arbenigwyr allweddol<br>Barclaycard - Cardiau Credyd Cwmni.<br>Experian Cyf. – gwiriadau hawl i weithio ar gyfer cydweithwyr newydd, er mwyn dilysu bod gan unigolyn hawl i weithio yn y DU<br>Experian Cyf. – gwiriadau record droseddol ar gyfer rolau sy'n cael eu heithrio dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974<br>DHL – gwasanaethau danfon<br>The Stone Group – cyflenwyr gliniaduron ac offer ymylol. |

| | |
|---|---|
| | Microsoft – Ffurflenni cais ac arolygon ar-lein at ddibenion recriwtio ac arolygon gweithwyr, adolygwyr neu ymwelwyr<br>Cvent Europe Cyf. – darparydd meddalwedd rheoli digwyddiadau<br>Midland Telecom – darparydd ffonau symudol QAA<br>Amazon Business – ar gyfer danfoniadau<br>Y Post Brenhinol - ar gyfer danfoniadau<br>NMC QA Link – ar gyfer gweithgareddau sicrhau ansawdd NMC<br>Text Anywhere – Llwyfan SMS ar gyfer anfon negeseuon ar-lein<br><br>Pensiwn y Bobl – cyfraniadau i gynllun pensiwn ar gyfer adolygwyr/aseswyr ac Ymwelwyr NMC<br>HSBC – ar gyfer taliadau cyflog a threuliau cydweithwyr QAA<br>Hazlewoods – at ddibenion cyflogres<br>HP – darparu gliniaduron gwaith<br>Dell – darparu gliniaduron gwaith<br>HEDD – at ddibenion dilysu cymwysterau.<br><br>Ym mhob achos, cyfyngir yr hyn a gaiff ei rannu i'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaeth. |
| Manylion trosglwyddiadau i wledydd y tu allan i'r UE ac amddiffyniadau | **SAUL**<br>Gall Ymddiriedolwr y darparydd pensiwn, SAUL, gyfarwyddo cwmnïau sy'n arbenigo mewn olrhain pobl, i drosglwyddo data personol i wlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) os bydd testun y data'n symud cartref ac yn anghofio rhoi gwybod iddynt am fanylion eu cyfeiriad newydd.<br><br>**USS**<br>Pe bai'r darparydd pensiwn, USS, yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo data personol y tu allan i'r AEE i unrhyw wlad sydd ddim ar restr gwledydd cymeradwy EC, byddant yn sicrhau bod amddiffyniad cyfreithiol priodol ar waith i ddiogelu data o'r fath, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, reolau corfforaethol caeth, cymalau cytundebol model, neu unrhyw sail gyfreithiol arall sy'n berthnasol fel gofyniad cyfreithiol.<br><br>**Gallagher**<br>Mewn achos o hawliad yswiriant, gall Gallagher drosglwyddo gwybodaeth bersonol y mae'n ei chasglu am unigolion i wledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ("DU") neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ("AEE"). Mae trosglwyddiadau rheolaidd Gallagher yn cynnwys:<br>I'w grŵp rhiant, AJG & Co., yn Unol Daleithiau America.<br>I India i gynorthwyo gyda gweithrediadau swyddfa-gefn.<br><br>Mae cytundebau trosglwyddo data o fewn y grŵp (gan ddefnyddio Cymalau Cytundebol Safonol) yn darparu diogelwch. Darllenwch y canlynol: Polisi Preifatrwydd Gallagher \| Gallagher UK (ajg.com).<br><br>**Click Travel**<br>Pan fydd cydweithiwr yn archebu teithio neu lety, mae *Click Travel* yn darparu gwybodaeth archebu'r teithiwr i gyflenwyr y gwasanaethau teithio hynny. Mae *Clic Travel* hefyd yn defnyddio darparwyr gwasanaethau trydydd parti i gynorthwyo eu darpariaeth gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r rhain yn cynnwys cyfryngwyr teithio, a swyddogaethau busnes eraill, llai uniongyrchol, gan gynnwys cymorth TG neu gynnal data ar lwyfannau cwmwl. Gallwch weld rhestr *Click Travel* o is-broseswyr yma.<br><br>**Shakespeare Martineau**<br>Mae'n bosibl y bydd angen i Shakespeare Martineau drosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU neu i sefydliad rhyngwladol er mwyn cael cymorth gan gyflenwr.<br><br>Pryd bynnag y bydd Shakespeare Martineau yn trosglwyddo data personol allan o'r DU, maent yn sicrhau bod o leiaf un o'r mesurau diogelu canlynol yn cael ei roi ar waith:<br>Byddant ond yn trosglwyddo data personol i wledydd y tybir eu bod yn darparu lefel ddigonol o amddiffyniad ar gyfer data personol.<br>Pan fyddant yn defnyddio darparwyr gwasanaeth penodol, mae'n bosib y byddant yn defnyddio contractau penodol a gymeradwyir i'w defnyddio yn y DU.<br><br>Gweler Hysbysiad Preifatrwydd Shakespeare Martineau LLP<br><br>**Cvent Europe Cyf.**<br><br>Er mwyn hwyluso arferion busnes Cvent a darparu eu gwasanaethau, mae'n bosibl y caiff data personol ei gasglu, eu gyrchu, ei drosglwyddo neu ei storio yn yr Unol Daleithiau neu mewn gwledydd eraill ble mae Cvent Europe Cyf. yn gweithredu, gan gynnwys gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) y Swistir a'r DU. Mae'n bosibl y caiff data personol ei gyrchu gan staff Cvent sy'n darparu gwasanaethau mewn unrhyw wlad ble mae ganddyn nhw gyfleusterau, neu ble maen nhw'r cyflogi darparwyr gwasanaethau trydydd parti (proseswyr ac is-broseswyr), gan gynnwys India, Awstralia a Singapore. Cyfeiriwch at Hysbysiad Preifatrwydd Cvent<br><br>**Experian Cyf.**<br>Mae Experian wedi'u lleoli yn y DU ac maen nhw'n gweithredu o fewn a thu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Golyga hyn y gall Experian Cyf. gyrchu gwybodaeth bersonol o'r lleoliadau hyn a'i throsglwyddo yn ogystal. Mae unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chyrchu neu ei throsglwyddo o'r lleoliadau hyn yn cael ei diogelu gan safonau diogelu data Ewrop. Er mwyn sicrhau bod Experian Cyf. yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel, maent yn gweithredu canllawiau gwarchod llym wrth ei throsglwyddo dramor. Er enghraifft:<br><br>1. Anfon gwybodaeth bersonol i wledydd a gymeradwyir gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhai sydd â chyfreithiau diogelu data o safon uchel, megis y Swistir, Canada ac Ynys Manaw,<br><br>2. Sefydlu cytundeb sydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd gyda'r sawl sy'n derbyn y wybodaeth bersonol sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch o'r safon uchaf, neu<br><br>3. Anfon gwybodaeth bersonol i sefydliad sy'n aelod a gymeradwyir gan y Comisiwn Ewropeaidd fel un sy'n darparu lefel briodol o ddiogelwch o safon uchel. |

| | |
|---|---|
| Ffynhonnell y data personol | Wedi'i darparu gennych chi i AD a/neu Dîm Cyllid QAA<br>Wedi'i darparu gennych chi i'r Dangosfwrdd Talu wrth greu cyfrif<br>Wedi'i darparu gennych chi i Dîm Gwasanaethau Adolygwyr QAA<br>Trwy gwblhau'r adran 'Diweddaru fy Manylion' ar Allrwyd Adolygu QAA<br>Recordiadau o gyfarfodydd *Microsoft Teams* neu *Zoom*. |
| Cyfnod cadw | Chwe blynedd o ddyddiad gorffen cyflogaeth neu gontract yn achos cyflogeion, adolygwyr a chontractwyr.<br>Chwe mis o'r penderfyniad recriwtio yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus.<br>Chwe mis o ddyddiad diwedd contract cyflogai neu adolygydd yn achos dogfennau hawl i weithio. Gwiriadau record droseddol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), *Disclosure Scotland* ac *Access NI*.<br><br>Dau fis o ddiwedd cyflogaeth neu gontract ar gyfer y manylion banc a pherthnasau agosaf ar gyfer cyflogeion neu ddyddiad diwedd contract ar gyfer cyflogeion neu gontractwyr sydd â manylion cysylltu personol ym meddiant eu rheolwyr llinell at ddibenion parhad busnes.<br><br>Ar gyfer pob cyfnod cadw arall, cyfeiriwch at Amserlen Cadw QAA. |
| P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol | Mae prosesu'n angenrheidiol fel rhan o ofyniad statudol. Os na fyddwch yn ein darparu â'ch data personol, mae'n bosib na fyddwn yn gallu cyflawni ein<br>hymrwymiadau i chi.<br>Mae prosesu'n angenrheidiol fel rhan o ofyniad cytundebol. Os na fyddwch yn darparu eich data personol i ni, mae'n bosib na fyddwn yn gallu cyflawni ein cyfrifoldebau cytundebol i chi. |
| System wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau | Does dim yn berthnasol. |

## Cadw eich data personol

Rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn unol â gofynion GDPR, sy'n ein gorfodi i'w chadw dim ond cyhyd ag y bo angen. Mae gan QAA bolisi ar gadw gwybodaeth. Os nad angen i ni gadw gwybodaeth bersonol am resymau busnes, rheoleiddiol neu gyfreithiol, byddwn yn ei dileu.

## Defnyddio cwcis

Ffeiliau testun bach yw cwcis, sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur gan wefannau y byddwch chi'n ymweld â nhw. Fe'u defnyddir yn helaeth er mwyn gwneud i wefannau weithio, i gofio eich gosodiadau a'ch dewisiadau unigol, ac i fesur sut rydych chi'n defnyddio gwefannau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'ch anghenion.

Mae manylion am ba gwcis y mae QAA yn eu defnyddio, pam rydym yn eu defnyddio a beth sydd angen i chi ei wneud os nad ydych yn dymuno derbyn rhai neu bob un ohonynt ar gael yn y Datganiad Cwcis gan QAA.

## Sut byddwn ni'n diogelu'ch data personol

Mae gennym fesurau diogelwch priodol ar waith i atal data personol rhag cael ei golli'n ddamweiniol, neu rhag cael ei ddefnyddio neu gael mynediad ato mewn ffordd heb ei hawdurdodi. Rydym yn cyfyngu mynediad at eich data personol i'r rhai sydd ag angen busnes gwirioneddol i'w weld. Bydd y rhai sy'n prosesu eich data personol yn gwneud hynny mewn modd awdurdodedig yn unig, ac maent yn destun dyletswydd cyfrinachedd.

Mae gennym hefyd weithdrefnau ar waith i ymdrin ag unrhyw amheuaeth o weithredu'n groes i reolau diogelwch data. Byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys am amheuaeth o dorri rheolau diogelwch data lle mae'n ofynnol dan y gyfraith i ni wneud hynny.

## Eich hawliau

Os yw QAA yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, mae gennych chi'r hawl i gael mynediad at y wybodaeth honno, ac i ofyn am wybodaeth ynghylch y canlynol dan gyfraith diogelu data:

- pa ddata personol sydd gennym amdanoch chi
- dibenion y prosesu
- y categorïau o ddata personol dan sylw
- y sawl y mae'r data personol wedi neu'n mynd i gael ei ddatgelu iddynt
- am ba hyd yr ydym yn bwriadu storio eich data personol
- os na chasglwyd y data yn uniongyrchol gennych chi, gwybodaeth am y ffynhonnell.

Mewn rhai achosion, os ydych chi'n credu ein bod ni'n cadw unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir amdanoch chi, mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gywiro a / neu gwblhau'r wybodaeth, a byddwn yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny cyn gynted â phosibl; oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny, a byddwn yn eich hysbysu bryd hynny.

Mae hefyd yn bosibl y bydd gennych chi'r hawl i ofyn am ddileu eich data personol neu'r hawl i gyfyngu ar brosesu (lle bo hynny'n berthnasol) yn unol â'r gyfraith ar ddiogelu data; yn ogystal â gwrthwynebu unrhyw farchnata uniongyrchol gennym ni. Lle bo hynny'n berthnasol, mae gennych hawl i gael eich data wedi'i gludo a'r hawl i gael eich hysbysu am unrhyw system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau y gallwn ei defnyddio.

Os hoffech **arfer** unrhyw un o'r hawliau hyn, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â ni:

- Trwy e-bost: governance@qaa.ac.uk
- Ffôn: +00 44 (0) 1452 557000
- Trwy'r post: Governance Team, QAA, Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB

Os derbyniwn gais gennych i arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, gallwn ofyn i chi gadarnhau pwy ydych chi cyn gweithredu ar y cais; mae hyn er mwyn sicrhau bod eich data yn cael ei amddiffyn a'i gadw'n ddiogel.

## Gwneud cwyn

Nid yw QAA ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ac yn unol â'r deddfau diogelu data perthnasol.

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn i ni drwy gysylltu â:

Y Swyddog Diogelu Data
QAA:
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
+00 44 (0) 1452 557000
Governance@qaa.ac.uk

Gallwch hefyd gwyno i'r awdurdod goruchwylio, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) os ydych yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio eich data. Cyfeiriad yr ICO yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Caer, SK9 5AF
Rhif Llinell Gymorth: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/concerns/handling

Cyhoeddwyd – Gorffennaf 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557135 (Cymraeg) 01452 557000 (English)
Gwefan: www.qaa.ac.uk